Nodiadau Hunangyflogaeth (byr)

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Pwy ddylai ddefnyddio'r tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)*?

Mae'r tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)* wedi ei dylunio ar gyfer y busnesau mwyaf syml pan fo trosiant (cyfanswm y derbyniadau, ffioedd neu arian a enillwyd gan eich busnes) yn llai na £70,000 y flwyddyn (neu mi fyddai petaech yn masnachu am flwyddyn gyfan).

Ni ddylech ddefnyddio'r tudalennau *byr*:

- os ydy'ch trosiant blynyddol yn £70,000 neu fwy
- os ydych wedi newid eich dyddiad cyfrifyddu
- os nad yw eich 'cyfnod sail' – hynny yw, cyfnod yr hunangyflogaeth rydych yn agored i dreth ar ei chyfer – yr un peth a'ch cyfnod cyfrifyddu. Gall hyn ddigwydd ym mlynyddoedd cynnar o fasnachu, os newidiwch eich dyddiad cyfrifyddu ac o bosibl pan fyddwch yn gorffen masnachu. Mae Taflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits* yn egluro cyfnodau sail
- daeth eich busnes i ben yn ystod y flwyddyn i 5 Ebrill 2011 ac ni wnaeth y cyfnod y gwnaethoch baratoi eich cyfrifon ar ei gyfer (eich cyfnod cyfrifyddu) ar gyfer 2009-10, ddod i ben ar 5 Ebrill 2010 ac mae gennych hawl i ryddhad gorgyffwrdd. Mae Taflen Gymorth 222 yn esbonio rhyddhad gorgyffwrdd
- os cafodd canlyniadau eich cyfrifon, a ddaeth i ben ar ddyddiad yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011, eu datgan ar ffurflen dreth flaenorol
- os ydych yn darparu eich gwasanaethau o dan gytundebau am wasanaethau proffesiynol neu wasanaethau eraill ac rydych wedi cynnwys cofnod ar gyfer incwm wedi'i addasu mewn ffurflenni treth cynharach
- os ydych yn far gyfreithiwr sy'n arfer ei grefft (adfocad yn yr Alban)
- os cynhelir eich busnes dramor
- os ydych am hawlio Lwfans Adeiladau Amaethyddol neu Ddiwydiannol neu lwfansau cyfalaf eraill ar gyfer eitemau heblaw am gyfarpar a pheiriannau
- os ydych am hawlio 'rhyddhad gorgyffwrdd'
- os ydych yn ffermwr, yn arddwr masnachol neu'n rhywun sy'n creu gweithiau llenyddol neu artistig ac rydych am hawlio 'cyfartalu'.
- os ydych am addasu eich elw sy'n agored i daliadau CYG Dosbarth 4 (er enghraifft, mae eich elw'n cynnwys enillion fel cyflogai)
- os oeddech wedi eich cynnwys yn y rhaglen Rheoli Diffygdalwyr Bwriadol ar gyfer unrhyw ran o'r flwyddyn.

Rhaid i chi gwblhau'r tudalennau *Hunangyflogaeth (llawn)* yn lle hynny. Gallwch gael y rhain, a'r *nodiadau* drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Cwblhau'r tudalennau *Hunanasesiad (byr)*

Does dim rhaid i chi lunio cyfrifon ffurfiol bob blwyddyn ond rhaid i chi gadw cofnodion digonol i ategu'r wybodaeth a nodwch ar y tudalennau hyn, er mwyn i ni gael darlun llawn a theg o'ch busnes. Rhaid i chi gadw eich cofnodion tan o leiaf 31 Ionawr 2017, rhag ofn y byddwn yn gofyn i'w gweld.

Os nad oes gennych gyfrifon bydd Taflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits* yn esbonio sut i gyfrifo eich elw trethadwy ac yn egluro sut gaiff yr elw hwnnw ei drethu. Os oes gennych gyfrifon, mae Taflen Gymorth 229 *Information from your accounts* yn rhoi cymorth ymarferol ynglŷn â chwblhau'r tudalennau *Hunanasesiad*.

Disgwyliwn i chi ddarparu ffigurau terfynol o'ch incwm a'ch treuliau. Os byddwch yn cynnwys unrhyw ffigurau sydd wedi eu hamcangyfrif neu'n rhai dros dro, dylech dynnu sylw atynt yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6 eich ffurflen dreth. Nodwch pam eu bod wedi eu hamcangyfrif neu'n rhai dros dro a phryd y disgwyliwch ddarparu'r ffigurau terfynol. Os bydd yn amhosibl i chi ddarparu ffigurau terfynol erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth, dylech gwblhau blwch 1, rhoi amcangyfrifon ym mlychau 8, 20 neu 21, 27 a 30 neu 31, a gadael gweddill y tudalennau'n wag. Nodwch pam rydych yn gwneud hyn a phryd byddwch yn darparu'r ffigurau terfynol yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall'.

Os oes gennych fwy nag un busnes bydd angen i chi gwblhau set o dudalennau *Hunangyflogedig* ar gyfer pob busnes hyd yn oed os oes gennych un set o gyfrifon sy'n cwmpasu eich holl fusnesau. Gweler Taflen Gymorth 220 *More than one business*.

Os oeddech yn weithiwr yn y diwydiant adeiladu ac mae'r person roeddech yn gweithio iddo/iddi wedi dweud wrthych nad oeddech yn hunangyflogedig ar gyfer cytundeb penodol, a didynnwyd treth o'r taliadau a gawsoch o dan drefniadau Talu Wrth Ennill, yna cysylltwch â ni.

Manylion busnes

Blwch 4 *Os ydych yn ofalwr maeth neu'n ofalwr rhannu bywydau*

Os ydych yn ofalwr maeth neu'n ofalwr rhannu bywydau, bydd sut fyddwch yn cwblhau'r tudalennau *Hunanasesiad (byr)* yn dibynnu ar y dull a ddewiswch i gwblhau eich ffurflen dreth. Mae Taflen Gymorth 236 *Foster and shared lives carers* yn esbonio hyn. Mae fwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk**

Blwch 5 *Os dechreuodd eich busnes ar ôl 5 Ebrill 2010*

Byddwch yn agored i dreth ar unrhyw elw am y cyfnod o'r dyddiad y dechreusoch weithio i chi eich hun hyd at 5 Ebrill 2011. Defnyddiwch y tudalennau *Hunangyflogaeth (llawn)*, nid y tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)* ar gyfer 2010-11 os byddwch yn paratoi eich cyfrifon hyd at ddyddiad gwahanol.

Blwch 6 *Os daeth eich busnes i ben cyn 6 Ebrill 2011*

Rydych yn agored i dreth ar unrhyw elw am y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl i'ch cyfnod sail ar gyfer 2009-10 orffen hyd at y dyddiad y daeth eich busnes i ben. Efallai y bydd hawl gennych gael rhyddhad treth a elwir yn 'rhyddhad gorgyffwrdd' os nad oedd eich dyddiad cyfrifyddu yn 5 Ebrill. Os credwch fod hawl gennych i gael y rhyddhad hwn, cwblhewch y tudalennau *Hunangyflogaeth (llawn)* ac nid y tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)*. Os dechreuodd eich busnes ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 cewch eich trethu ar elw llawn eich busnes.

Gorffen bod yn Hunangyflogedig at ddibenion cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2

Rhaid i chi hefyd ffonio'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Ganolfan Gyswllt Hunanasesiad (Saesneg) ar **08459 15 46 55** i gadarnhau'r dyddiad y peidioch â gweithio i chi eich hun. Os nad oes angen i chi dalu CYG Dosbarth 2 mwyach, byddant yn trefnu bod eich biliau'n cael eu hatal.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 7 *Dyddiad cau eich llyfrau neu eich cyfrifon*

Rhaid i bob busnes gadw cofnodion – yn unol â'r gyfraith. Yr arfer yw cadw eich cyfrifon busnes fesul blwyddyn ac i lunio eich eich cyfrifon i'r un dyddiad bob blwyddyn. Y dyddiad hwnnw fydd eich 'dyddiad diwedd blwyddyn' neu eich 'dyddiad cyfrifyddu'.

Gall hyn fod unrhyw ddyddiad ond, gan fod y flwyddyn dreth yn dod i ben ar 5 Ebrill gallai dewis 5 Ebrill wneud pethau'n haws.

Os yw'r dyddiad ym mlwch 7 ar ôl 5 Ebrill 2011 ni allwch ddefnyddio'r tudalennau *Hunanasesiad (byr)* oherwydd ni fydd eich cyfnod cyfrifyddu'r un fath â'r cyfnod y byddwch yn agored i dreth (gweler y nodyn ar gyfer blwch 5). Rhaid i chi gwblhau'r tudalennau *Hunanasesiad (llawn)* yn lle.

Incwm Busnes

Blwch 8 *Eich trosiant – y derbyniadau, ffioedd, gwerthiant neu arian a enillwyd gan eich busnes*

Efallai weithiau cyfeirir at gyfanswm y gwerthiant, derbyniadau, ffioedd neu arian a enillwyd gan eich busnes ar gyfer y cyfnod hyd at y dyddiad ym mlwch 7 fel eich trosiant.

Mae trosiant yn cynnwys:
- arian parod neu sieciau (gan gynnwys incwm o'r diwydiant adeiladu)
- ffioedd, cildyrnau a chomisiynau
- gwerth unrhyw daliadau 'ar ffurf nwyddau' – nad yw'n daliad drwy siec neu arian parod – am waith a wnaed neu am nwyddau a werthwyd.

Dyma'r arian sy'n ddyledus i chi hyd at ddiwedd eich blwyddyn – p'un a gawsoch eich talu mewn gwirionedd ai peidio. Nid yw'n cynnwys Lwfans Dechrau Busnes – nodwch hwnnw ym mlwch 29.

Blwch 9 *Unrhyw incwm arall y busnes nas cynhwyswyd ym mlwch 8*

Cynhwyswch incwm y busnes nad yw'n ffurfio rhan o drosiant eich busnes, er enghraifft:
- incwm drwy osod rhan o eiddo eich busnes nad oes ei angen dros dro
- taliadau'r Fargen Newydd sy'n agored i dreth
- taliadau a gewch am yr hawl i groesi eich tir (hawl tramwy).

Peidiwch â chynnwys incwm ym mlwch 9 os ydych yn bwriadu ei gynnwys mewn man arall ar eich ffurflen dreth, er enghraifft, llog banc a gafwyd gan y busnes, a gaiff ei gynnwys ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth.

Dylid nodi incwm o fasnach neu fusnes arall ar dudalen *Hunangyflogaeth* ar wahân.

Treuliau busnes caniataol

Blychau 10 i 19

Bydd treuliau'n amrywio o fusnes i fusnes – ond gallwch ddod o hyd i fan i gynnwys eich treuliau busnes yn y categorïau a gynhwyswyd ym mlychau 10 i 18. Nid yw rhai treuliau yn rhai caniataol at ddibenion treth – er enghraifft, gwesteia cleientiaid hyd yn oed os gwnaeth gwesteia o'r fath arwain yn uniongyrchol at fusnes newydd.

Caniateir rhai treuliau yn rhannol yn unig. Er enghraifft, os defnyddiwch eich car ar gyfer teithiau busnes yn ogystal â rhai preifat, gallwch hawlio costau teithio'r busnes yn unig yn erbyn treth. (Ceir fwy o wybodaeth ynglŷn â threuliau moduro yn y paragraff nesaf.) Efallai y gweithiwch o gartref neu efallai y defnyddiwch ystafell yn eich cartref fel swyddfa. Gallwch hawlio canran y busnes yn unig o gostau cynnal eich cartref (gwres a golau ac ati) fel treuliau busnes. Os yw eich cofnodion yn cynnwys cyfanswm eich treuliau bydd yn rhaid i chi gyfrifo cyfartaledd y deunydd preifat, a didynnu'r symiau hynny cyn nodi'r ffigurau ar gyfer treuliau busnes caniataol ym mlychau 10 i 18.

Efallai y gallwch gyfrifo eich treuliau moduro trwy ddefnyddio cyfradd sefydlog ar gyfer pob milltir a deithiwch ar fusnes yn lle'r costau moduro gwirioneddol. Os defnyddiwch y dull hwn rhaid i chi beidio â hawlio lwfansau cyfalaf am y cerbyd. Mae gwybodaeth ynglŷn â chyfraddau milltiredd yn Nhaflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits*.

Peidiwch â chynnwys cost neu dibrisiant neu ostyngiad mewn gwerth yng nghyfarpar neu beiriannau a ddefnyddiwch yn y busnes yn y blychau hyn. Yn lle hynny dylech hawlio lwfansau treth a elwir yn 'lwfansau cyfalaf' am yr eitemau hyn (gweler y nodiadau ar gyfer blychau 22 i 25). Ond dylech gynnwys costau cynnal yma.

Gallwch nodi cyfanswm eich treuliau busnes caniataol ym mlwch 19 yn hytrach na rhoi dadansoddiad mwy manwl.

Lwfansau treth ar gyfer cerbydau a chyfarpar (lwfansau cyfalaf)

Gallwch hawlio lwfansau treth, a elwir yn lwfansau cyfalaf, ar gyfer costau prynu a gwelliannau i gerbydau a chyfarpar - megis faniau, offer, cyfrifiaduron, dodrefn busnes, ceir a ddefnyddiwch yn eich busnes (hyd yn oed os prynwyd yr eitem o dan drefniadau hurbwrcas). Ni ellir caniatáu costau eitemau o'r fath fel treuliau wrth gyfrifo eich elw trethadwy. Mae'r math o lwfansau cyfalaf y gallwch eu hawlio yn dibynnu ar yr asedion sydd gennych ac amgylchiadau eraill – gweler y nodiadau ar gyfer blychau 22 i 25 isod.

Rhaid peidio â hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer:
- costau'r hyn y byddwch yn eu prynu a'u gwerthu wrth fasnachu oherwydd gellir hawlio'r rhain fel treuliau'r busnes
- y llog a ffioedd eraill y gellir codi arnoch am brynu eitemau o dan hurbwrcas. Dylid gwahanu'r taliadau hyn a'u cynnwys ym mlwch 16.

Mae'r nodiadau isod yn berthnasol dim ond os oes gennych gyfnod cyfrifyddu 'safonol' o 12 mis ac os ydych yn crynhoi'r lwfansau sydd ar gael. Os yw eich cyfnod cyfrifyddu'n hwy neu'n fyrrach na blwyddyn neu os dechreuoch cyn 6 Ebrill 2010 neu os ydych am wybod mwy am lwfansau cyfalaf, yna darllenwch Daflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* neu cysylltwch â ni neu eich cynghorydd treth.

Bydd y nodiadau a'r enghreifftiau yn eich helpu i gyfrifo'r lwfansau hyn a'r ffigurau i'w cynnwys ym mlychau 22 i 25. Mae mwy o gyngor ac enghreifftiau ar gael hefyd yn Nhaflen Gymorth 252.

Defnydd busnes a phreifat

Pan fyddwch yn defnyddio eitem o gyfarpar at ddibenion busnes yn ogystal â phreifat, dylai'r lwfans a hawliwch gael ei ostwng gan eich defnydd preifat o'r eitem. I wneud hyn, cyfrifwch y lwfansau cyfalaf sy'n ddyledus ar gyfer pob eitem sydd ag unrhyw ddefnydd preifat ar wahân gan ddefnyddio 'cronfa ased unigol' a gostwng y lwfansau a hawliwch gan y gyfran am ddefnydd preifat (gweler Enghraifft 1 ar dudalen SESN 5 ac Enghraifft 3 ar dudalen SESN 7).

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 22 *Lwfans Buddsoddi Blynyddol*

Gallwch hawlio lwfans cyfalaf a elwir yn 'Lwfans Buddsoddi Blynyddol' (LBB) os gwnaethoch brynu cyfarpar (ond nid ceir) yn ystod y flwyddyn hyd at swm blynyddol o £100,000. Ychwanegwch at ei gilydd gostau'r holl gyfarpar. Os ydy cyfanswm y gwariant yn £100,000 neu lai, gallwch hawlio 100% o'r swm cyfan hwnnw fel eich LBB. Os yw'r cyfanswm yn fwy na £100,000 yna gallwch hawlio hyd at £100,000 o'r cyfanswm fel eich LBB.

Pan fyddwch yn defnyddio eitem o gyfarpar at ddibenion busnes yn ogystal â phreifat, rhaid i'r LBB a hawlir gael ei ostwng gan y gyfran ar gyfer defnydd preifat.

Enghraifft 1

Mae Gwilym yn prynu ychydig o offer am £5,000 a fan sy'n costio £10,000. Caiff yr offer eu defnyddio ar gyfer y busnes yn unig. Defnyddir y fan 60% o'r amser ar gyfer busnes a 40% ar gyfer moduro preifat. Gan fod cyfanswm y gost yn llai na £100,000, gall Gwilym hawlio'r swm llawn fel LBB.

Fodd bynnag, oherwydd bod y fan yn cael ei defnyddio at ddibenion preifat, rhaid i Gwilym gyfyngu swm yr LBB y mae'n ei hawlio ar gyfer y fan i adlewyrchu'r defnydd preifat. Mae hyn yn golygu mai £6,000 (£10,000 llai 40% am ddefnydd preifat) yw'r LBB y gall e hawlio.

Cyfanswm ei hawliad am LBB yw £11,000 (£5,000 ar gyfer yr offer yn ogystal â £6,000 am y fan).

Nodwch gyfanswm yr LBB ym mlwch 22.

Blwch 23 *Lwfans ar gyfer balans bychan o wariant na chafwyd rhyddhad ar ei gyfer*

Os yw'r hyn sy'n weddill yn y 'brif gronfa' neu'r 'gronfa gyfradd arbennig' (gweler y nodiadau ar gyfer 'lwfans ar bapur o 20%' a 'lwfans ar bapur o 10%' ar dudalen SESN 6)

- ar ôl hawlio LBB
- ynghyd ag unrhyw falans a ddygwyd ymlaen o unrhyw flwyddyn flaenorol
- llai unrhyw swm a gawsoch drwy waredu'r cyfarpar nad ydych yn ei ddefnyddio mwyach

yn £1,000 neu lai, gallwch hawlio'r swm llawn hwnnw, neu ran ohono, fel 'lwfans cronfeydd bychan' yn lle'r lwfans ar bapur o 20% neu 10%. Nodwch swm y lwfans hwn ym mlwch 23. Ni fydd unrhyw weddill i'w gario ymlaen.

Enghraifft 2

Gwariodd John £1,500 ar gyfarpar a dygodd ymlaen gronfa o £700 o 2009-10. Gall hawlio'r £1,500 llawn ar ffurf LBB a gall hawlio'r gronfa o £700 a ddygwyd ymlaen fel lwfans cronfa fechan.

Blwch 24 *Lwfansau cyfalaf eraill*

Gallai fod hawl gennych hefyd i fathau eraill o lwfansau cyfalaf yn dibynnu ar y gost, math o ased, ac amodau cymhwyso, er enghraifft:

- 20% 'lwfans ar bapur' (LAB) neu '*writing down allowance*'
- 10% 'lwfans ar bapur'
- lwfans 100%
- lwfans mantoli
- lwfans blynyddol cyfyngedig ar gyfer ceir sy'n costio mwy na £12,000 a brynwyd cyn 6 Ebrill 2009.

Darllenwch y nodiadau ar dudalen SESN 6 a Thaflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* am fwy o fanylion. Nodwch gyfanswm y mathau eraill o'r lwfansau hyn ym mlwch 24.

Lwfans ar bapur o 20%

Pan fyddwch wedi gwario mwy na £100,000 mewn blwyddyn ar gyfarpar (ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010) neu rydych wedi prynu car gydag allyriad CO_2 o 160g/km neu lai, ychwanegwch yr holl wariant at ei gilydd i greu 'prif gronfa' gostau. Didynnwch:

- unrhyw Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) hyd at £100,000 (ac eithrio unrhyw geir) a gynhwyswch ym mlwch 22
- unrhyw gyfarpar sy'n gymwys am lwfansau 10% neu 100%
- unrhyw eitemau a roddir mewn cronfa ar wahân.

Ychwanegwch werth unrhyw brif gronfa o'r flwyddyn flaenorol, llai gwerth unrhyw werediadau a wnaethoch yn ystod y flwyddyn.

Gallwch wedyn hawlio lwfans ar bapur o 20% o werth yr hyn sy'n weddill yn y gronfa. Er enghraifft, os ydych wedi gwario £120,000 ar gyfarpar ac wedi hawlio £100,000 fel LBB bydd y gweddill o £20,000 yn gymwys am lwfans blynyddol o 20% sef £4,000. Dylech gynnwys y ffigur hwn ym mlwch 24. Dylech gario'r swm sydd ar ôl yn y brif gronfa ar ôl didynnu'r lwfans o 20% (16,000) ymlaen i'r flwyddyn ganlynol.

10% 'lwfans ar bapur'

Bydd rhai eitemau yn gymwys dim ond ar gyfer lwfansau ar bapur o 10% ac mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi mewn cronfa 'cyfradd arbennig' ar wahân. Yr eitemau mwyaf cyffredin yw ceir a brynwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2009 gydag allyriad CO_2 sydd dros 160g/km, a rhai nodweddion annatod adeilad, er enghraifft systemau trydanol. Gallwch ddefnyddio eich LBB o £100,000 yn rhannol neu'n gyfan gwbl yn erbyn gwariant sy'n gymwys am y Lwfans ar Bapur o 10% (ac eithrio ceir).

Lwfans 100%

Efallai y bydd gennych hawl i lwfans blwyddyn gyntaf o 100% os ydych wedi prynu rhai technolegau penodol, er mwyn eu defnyddio yn y busnes gosod eiddo, sy'n rhoi ystyriaeth i'r amgylchedd neu sy'n fanteisiol i'r amgylchedd. Maen nhw ar gael er mwyn prynu:

- technolegau dynodedig ar gyfer arbed egni ac sy'n ddŵr-effeithlon a ddefnyddir yn eich busnes (hyd yn oed os ydych fel arall wedi defnyddio eich LBB i gyd)
- ceir newydd sydd heb eu defnyddio gydag allyriad CO_2 sy'n is na 110g/km
- cyfarpar ar gyfer ail-lenwi cerbydau gyda nwy naturiol, bionwy neu danwydd hydrogen
- cerbydau nwyddau newydd a rhai sydd heb eu defnyddio gyda dim allyriad (o 6 Ebrill 2010).

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.eca.gov.uk www.hmrc.gov.uk/budget2010/bn05.htm** neu **www.hmrc.gov.uk/manuals/camanual/CA23153.htm**

Gwarediadau

Os byddwch yn gwaredu neu'n gwerthu eitem, neu os na fyddwch yn ei defnyddio yn y busnes mwyach, didynnwch dderbyniadau am werthiant unrhyw eitem sydd yn y gronfa, neu werth marchnad eitemau a gadwch (hyd at gost yr eitem), o'r hyn sy'n weddill yn y gronfa y cynhwyswyd yr ased ynddo, cyn i chi gyfrifo'r lwfans ar bapur. (Os gwnaethoch hawlio cost lawn yr ased yn flaenorol fel LBB byddai gwerth yr ased wedi ei gynnwys yn y gronfa briodol fel 'dim'.)

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Lwfans mantoli

Os gwerthwch eitem mewn cronfa ased unigol (gan gynnwys cronfa am gar – gweler isod), ac mae'r derbyniadau neu'r gwerth yn llai na gwerth y gronfa neu gost yr eitem, gelwir y gwahaniaeth yn lwfans mantoli a dylid ei gynnwys gydag eitemau eraill ym mlwch 24.

Gallwch hawlio lwfans mantoli dim ond yn y brif gronfa neu gronfa gyfradd arbennig yn y flwyddyn y daeth eich busnes i ben yn barhaol.

Ceir

Nid yw gwariant ar geir yn gymwys ar gyfer LBB. Mae'r mathau o lwfansau y gallwch eu hawlio, a'r swm y gallwch hawlio, yn dibynnu ar bryd prynwyd y car, y gost, a p'un a ydych yn ei ddefnyddio at ddibenion preifat.

Lwfansau blynyddol wedi'u cyfyngu ar gyfer ceir sy'n costio mwy na £12,000 ac a brynwyd cyn 6 Ebrill 2009

Os prynoch gar a gostiodd mwy na £12,000 cyn 6 Ebrill 2009, ni allwch hawlio lwfans ar bapur o fwy na £3,000 mewn unrhyw un flwyddyn ar ei gyfer. Rhaid cyfyngu'r lwfans ar bapur o 20% i uchafswm o £3,000 ac yna ei ostwng ymhellach os defnyddir y car at ddibenion preifat (gweler isod). Rhowch bob car sy'n costio mwy na £12,000 mewn 'cronfa geir' ar wahân a pharatowch gyfrifiad ar wahân ar gyfer pob un. Dylech barhau i wneud hyn am ba hyd bynnag y bydd y car yn eiddo i chi, neu tan 6 Ebrill 2014.

Defnydd preifat

Os oes gennych gar a ddefnyddiwch ar fusnes ac at ddefnydd preifat, rhaid rhoi'r gost neu'r gwerth mewn cronfa ased unigol ar wahân. Cyfrifwch y lwfansau priodol sy'n ddyledus (ond nid yr LBB) yn dibynnu ar bryd prynwyd y car, cost y car ac (os prynwyd y car ar neu ar ôl 6 Ebrill 2009) yr allyriad CO_2. Rhaid i chi wedyn ostwng y lwfansau i gyfateb a'r gyfran at ddefnydd busnes.

Enghraifft 3

Ym mis Ionawr 2009 prynodd Glyn gar am £16,000. Defnyddir y car 60% at ddibenion busnes a 40% at ddibenion preifat. Ni all y car gael ei gynnwys yn y brif gronfa ac nid yw'n gymwys ar gyfer y LBB. Oherwydd bod y car wedi costio mwy na £12,000 gall Glyn hawlio lwfansau ar bapur yn unig o hyd at £3,000 (nid 20% o'i werth oherwydd byddai hynny'n fwy na £3,000).

2009–10	**Cronfa'r car**	**Lwfans a hawlir**
Cost y car	£16,000	
Lwfans blynyddol (LAB) (£16,000 x 20% (£3,200) *wedi'i gyfyngu i £3,000)*	*(*£3,000)	£1,800 (60%)
Gwerth a gariwyd ymlaen	£13,000	
2010–11		
Lwfans blynyddol (LAB) (£13,000 x 20%)	*(*£2,600)	£1,560 (60%)
Gwerth a gariwyd ymlaen	£10,400	

Oherwydd bod Glyn yn defnyddio ei gar 40% at ddefnydd preifat rhaid cyfyngu'r lwfans ar bapur i gyfartaledd y defnydd busnes o 60%. Ychwanegir y lwfans a hawlir at y lwfansau ym mlwch 24.

Ceir a brynwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2009

Ar gyfer ceir a brynwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2009, mae'r lwfansau y gallwch hawlio yn dibynnu ar allyriad carbon deuocsid (CO_2) y car. Ceir gydag allyriad CO_2:

- dros 160g/km – dylid rhoi'r rhain yn y gronfa gyfradd arbennig a byddant yn gymwys am lwfans ar bapur o 10%
- o 160g/km neu lai – dylid rhoi'r rhain yn y brif gronfa a byddant yn gymwys am lwfans ar bapur o 20%
- o 110g/km neu lai – mae'r rhain yn gymwys am lwfans blwyddyn gyntaf o 100%.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â lwfansau cyfalaf ar gyfer ceir ac enghreifftiau ar Daflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges*.

Blwch 25 *Cyfanswm y taliadau mantoli – pan fyddwch wedi gwaredu eitemau am fwy na'u gwerth*

Pan fyddwch yn gwerthu eitem rydych wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer, didynnwch y swm a gawsoch ar ei chyfer (derbyniadau'r gwerthiant) hyd at gost yr eitem o werth y gronfa a ddygwyd ymlaen neu'r gost. Yn yr un modd os nad ydych yn defnyddio eitem at ddibenion busnes, didynnwch ei gwerth o werth y gronfa neu'r gost. Os yw derbyniadau gwerthiant neu werth yr eitem yn fwy na gwerth y gronfa neu'r gost, yna gelwir y gwahaniaeth yn 'dâl mantoli' ac mae'n agored i dreth. Nodwch gyfanswm unrhyw daliadau mantoli ym mlwch 25.

Enghraifft 4

Mae gan Dewi gronfa o 'dim' a ddygwyd ymlaen ar gyfer 2010-11 gan fod ei holl wariant blaenorol wedi ei ddiddymu drwy hawlio LBB a lwfans cronfeydd bychain. Mae'n gwerthu cyfarpar am £11,000. Mae ei gyfrifiad lwfans cyfalaf ar gyfer 2010-11 fel a ganlyn:

Gwerth a ddygwyd ymlaen	£0
Derbyniadau gwaredu	£11,000
Tal mantoli	£11,000

Rhaid i Dewi gynnwys y tâl mantoli hwn o £11,000 ym mlwch 25.

Cyfrifo eich elw trethadwy

Blwch 26 *Nwyddau neu wasanaethau at eich defnydd eich hun*

Os byddwch chi, neu eich teulu neu eich ffrindiau, yn cymryd unrhyw stoc neu nwyddau gwneud allan o'ch busnes rhaid i chi gynnwys y gwerth (ac nid y gost i chi) yma, o'r hyn a gymerwyd, oni bai eich bod eisoes wedi cynnwys y gwerth yn eich trosiant.

Os ydych wedi cynnwys treuliau gros ym mlychau 10 i 18, hynny yw, ni wnaethoch ddidynnu unrhyw dreuliau anghaniataol yno, nodwch y symiau anghaniataol hynny yma ym mlwch 26.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Cyfanswm yr elw trethadwy neu golled net y busnes

Defnyddiwch y Daflen Waith isod i gyfrifo'r ffigurau ar gyfer blychau 27, 30 neu 31.

Taflen Waith ar gyfer blychau 27, 30 neu 31

Dechreuwch gyda ffigur eich elw net *blwch 20* neu ffigur eich colled net *blwch 21*	A	£
Ychwanegwch Eitemau sy'n cynyddu eich elw (neu'n gostwng eich colled) Taliadau mantoli *blwch 25*	B	£
Nwyddau neu wasanaethau at eich defnydd eich hun *blwch 26*	C	£
Cyfanswm *blwch A + blwch B + blwch C*	D	£
Llai Eitemau sy'n gostwng eich elw (neu'n cynyddu eich colled) Lwfansau cyfalaf *blwch 22 + blwch 23 + blwch 24*	E	£
Elw net y busnes *Blwch D llai blwch E - os yw'r canlyniad yn bositif copïwch y ffigur i flwch 27*	F	£
neu golled net y busnes *Blwch D llai blwch E - os yw'r canlyniad yn negyddol copïwch y ffigur i flwch 31*	G	£
Llai Colledion a ddygwyd ymlaen (hyd at y swm ym mlwch 27)	H	£
Cyfanswm *blwch F llai blwch H*	I	£
Ychwanegwch Unrhyw incwm arall y busnes (blwch 29)	J	£
Cyfanswm yr elw trethadwy o'r busnes hwn *- copïwch i flwch 30 blwch I + blwch J*	K	£

Colledion, Cyfraniadau YG Dosbarth 2 a Dosbarth 4 a didyniadau CIS

Os ydych yn hunangyflogedig byddwch fel arfer yn talu CYG Dosbarth 2 a Dosbarth 4. I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/ni/intro/basics.htm**, neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Ganolfan Gyswllt i'r Hunangyflogedig (Saesneg) ar **0845 915 4655**.

Blychau 32 i 34 *Colledion*

Mae rheolau'n bodoli ynghylch sut y gellir gwrthbwyso colledion a therfynau amser ynglŷn â gwneud ceisiadau ar gyfer colledion. Rhaid gwneud rhai ceisiadau erbyn 31 Ionawr 2013. Ni fyddwn fel arfer yn derbyn ceisiadau hwyr. Efallai y byddwch am gael cyngor proffesiynol neu gallech ofyn i ni am Daflen Gymorth 227 *Losses*, sy'n cynnwys mwy o wybodaeth a Thaflen Waith i'ch helpu i gadw trefn ar eich colledion.

Os ydych eisoes wedi gwneud cais am y golled yn 2010-11 dylech gynnwys y golled o hyd yn y blwch perthnasol ar eich ffurflen dreth.

Os yw eich cais yn erbyn incwm neu enillion mewn blwyddyn gynharach, neu os ydych yn ail-wneud cais rydych eisoes wedi ei wneud, dylech roi manylion ym mlwch 19 ar dudalen TR 6 eich ffurflen dreth.

Blwch 35 *Os ydych wedi eich eithrio rhag talu Cyfraniadau YG Dosbarth 4*

Byddwch wedi eich eithrio rhag talu Cyfraniadau YG Dosbarth 4:

- os oeddech ar 6 Ebrill 2010
  - yn ddyn sy'n 65 oed neu'n hŷn,
  - yn fenyw a aned cyn 5 Ebrill 1950, neu
  - o dan 16 oed, neu
- os nad oeddech yn preswylio yn y DU at ddibenion treth yn ystod 2010-11 (os nad ydych yn siŵr cysylltwch â ni neu eich cynghorydd treth).

Os ydych yn ymddiriedolwr neu'n blymiwr neu'n hyfforddwr plymio gallech fod wedi eich eithrio hefyd; cysylltwch â ni os credwch fod hyn yn berthnasol i chi.

Os ydych wedi eich eithrio rhowch 'X' ym mlwch 35. Peidiwch â chwblhau blwch 36.

Blwch 36 *Os rhoddwyd tystysgrif gohirio talu cyfraniadau YG Dosbarth 4 i chi ar gyfer 2010-11*

Os ydych yn gyflogedig yn ogystal â'n hunangyflogedig, gallai Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyflogwyr gytuno i ohirio talu rhai o'ch Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 tan y gellir pennu cyfanswm eich cyfraniadau. Os cytunir eich cais i ohirio, byddant yn anfon tystysgrif gohirio atoch (ffurflen CA2703 *Caniatáu gohirio rhwymedigaeth i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 a Dosbarth 4*). Rhowch 'X' ym mlwch 36 dim ond os yw'r Swyddfa wedi rhoi tystysgrif gohirio i chi eisoes. Os ydych am wneud cais i ohirio, yna cysylltwch â ni.

Blwch 37 *Didyniadau ar ddatganiadau talu a didynnu a roddir gan gontractwyr*

Os ydych yn isgontractiwr yn y diwydiant adeiladu, nodwch gyfanswm y didyniadau a wnaed gan eich contractwyr o daliadau a gawsoch yn y flwyddyn 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011. Dangosir y didyniadau ar eich datganiadau tâl a didyniadau CIS. Peidiwch ag anfon y rhain gyda'ch ffurflen dreth. Dylech gynnwys cyfanswm y didyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ym mlwch 37 hyd yn oed os ydych eisoes wedi hawlio ad-daliad o'ch didyniadau CIS. Nodwch swm yr ad-daliad a gafwyd neu a wrthbwyswyd yn erbyn treth arall sy'n ddyledus ym mlwch 1 yr adran 'Gorffen eich ffurflen dreth' ar eich ffurflen dreth.

Os cofnodwch rywbeth ym mlwch 37, peidiwch ag anghofio cynnwys eich derbyniadau gros o'ch holl gontractwyr ym mlwch 8 (hynny yw, swm llawn y taliadau a gawsoch cyn didynnu'r didyniadau CIS).

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio. Cynhwysir diwygiadau dilynol i'r nodiadau hyn ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk**